# Ymddiriedolwr Mudiad Meithrin

Mae ein hymddiriedolwyr, sy'n aelodau o'n Bwrdd Cyfarwyddwyr, yn chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau bod Mudiad Meithrin yn cyflawni ei bwrpas craidd, sef roi'r cyfle i bob plentyn chwarae, dysgu a thyfu drwy'r Gymraeg.

Byddant yn goruchwylio rheolaeth a gweinyddiaeth gyffredinol elusen Mudiad Meithrin a'n is-gwmni, Meithrinfeydd Cymru. Maent yn sicrhau bod gan Mudiad Meithrin strategaeth glir a bod ein gwaith a'n nodau yn unol â'n gweledigaeth. Yr un mor bwysig, maent yn cefnogi ac yn herio'r tîm gweithredol i alluogi Mudiad Meithrin i dyfu, ffynnu, a thrwy hyn, cyflawni ein cenhadaeth.

Mae gan ein hymddiriedolwyr/Cyfarwyddwyr gyfrifoldeb ar y cyd. Golyga hyn bod ymddiriedolwyr/Cyfarwyddwyr bob amser yn cydweithredu, gan anelu at gyrraedd consensws wrth wneud penderfyniadau.



## Sgiliau a Rhinweddau Personol

- Brwdfrydedd dros weledigaeth a chenhadaeth Mudiad Meithrin i roi'r cyfle i bob plentyn yng Nghymru chwarae, dysgu a thyfu drwy'r Gymraeg.
- Y gallu i arwain yn ôl ein gwerthoedd elusennol:
  - Caredig a chyfrifol
  - Tryloyw ac anrhydeddus
  - Proffesiynol ac adeiladol
  - Cynhwysol a chroesawgar
- Sgiliau cyfathrebu effeithiol a pharodrwydd i gymryd rhan weithredol mewn trafodaethau. Nodir mai'r Gymraeg yw iaith gwerthredu Mudiad Meithrin.
- Y gallu i ofyn cwestiynau a chynnig syniadau fydd yn cefnogi, herio a datblygu cyfeiriad gwaith Mudiad Meithrin.
- Y gallu i ddod â mewnweledidiad o brofiadau byw o'r sector gofal plant i gyfrannu at drafodaethau ar lefel strategol a chenedlaethol.
- Parodrwydd a'r gallu i ddeall a derbyn eu cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau fel ymddiriedolwyr/cyfarwyddwyr ac i weithredu er budd gorau Mudiad Meithrin.
- Y gallu i weithio ar y cyd, deall safbwyntiau eraill a dod i benderfyniadau trwy gonsenswus er budd Mudiad Meithrin.
- Ymrwymiad personol cryf i degwch, amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a chynhwysiant.
- Ymrwymiad i saith egwyddor bywyd cyhoeddus Nolan: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth, ynghyd â'r 8fed egwyddor (sef ymrwymiad i gynhwysiant).



## Dyletswyddau

- Cefnogi a darparu cyngor ar ddibenion elusennol, gweledigaeth, nodau a gweithgareddau Mudiad Meithrin.
- Cymeradwyo strategaethau a pholisïau gweithredol, a monitro a gwerthuso'r rhain wrth eu gweithredu.
- Goruchwylio cynlluniau ariannol a chyllidebau Mudiad Meithrin a monitro a gwerthuso cynnydd.
- Sicrhau gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon y sefydliad.
- Sicrhau bod risgiau allweddol yn cael eu nodi, eu monitro a'u rheoli'n effeithiol.
- Adolygu a chymeradwyo datganiadau ariannol Mudiad Meithrin.
- Cefnogi a chwestiynu'r Prif Weithredwr Mudiad Meithrin wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau a chyfrifoldebau dirprwyedig.
- Cadw'n gyfredol â newidiadau yng nghyd-destun yr amgylchedd y mae Mudiad Meithrin yn gweithredu ynddo – y Gymraeg, y sector gofal plant ac addysg Gymraeg.
- Cyfrannu at adolygiadau rheolaidd o lywodraethiant Mudiad Meithrin.
- Mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, gan baratoi'n ddigonol i gyfrannu at drafodaethau.
- Gweithredu o fewn y gyfraith, yn seiliedig ar farn annibynnol ac ewyllys da, i hyrwyddo a diogelu buddiannau Mudiad Meithrin, ac eithrio buddiannau personol y cyfarwyddwyr a/neu unrhyw fuddiannau trydydd parti.
- Cyfrannu at hyrwyddo dibenion, nodau ac enw da Mudiad Meithrin yn ehangach drwy ddefnyddio eu sgiliau, arbenigedd, gwybodaeth a chysylltiadau.



## Telerau Penodi

**<u>Hyd yr apwyntiad:</u>**

**Hyd at 5 mlynedd, gyda'r gallu i sefyll am ail dymor.**
**Nodir mai rôl gwirfoddol yw hon a gellir dod â'r apwyntiad i ben cyn diwedd y tymor.**

**<u>Ymrwymiad amser</u>**

**Mynychu 6 chyfarfod Bwrdd yn flynyddol. Cynhelir y cyfarfodydd bob deufis (heblaw am fis Awst) trwy Teams/Zoom gyda chyfarfodydd achlysurol yn y swyddfa yn Aberystwyth. Cynhelir y cyfarfodydd ar brynhawn ddydd Iau rhwng oddeutu 4.00 a 6.00pm, oni bai am gyfarfodydd wyneb yn wyneb fydd yn digwydd yn ystod oriau gwaith arferol**

**Cyfle i gyfrannu at waith a datblygiad parhaus Mudiad Meithrin, trwy aelodaeth o is-bwyllgorau'r Bwrdd, a/neu weithgarwch grwpiau 'gorchwyl a gorffen' ad hoc, fel sy'n briodol.**

**Bydd disgwyl i bob Cyfarwyddwr gyflawni hyfforddiant gofynol byr ar ddechrau ei gyfnod ar y Bwrdd ac yn ol y gofyn wedi hynny i gydymffurfio gyda'n cyfrifoldebau statudol. Fe fydd cyfleon i fynychu hyfforddiant ar amryw feysydd yn ol yr angen yn ogystal.**

**Cyfle i fynychu ein seremoni wobrwyo blynyddol, cynadleddau a digwyddiadau, a chyfleon dysgu a datblygu yn y sector Gymraeg, gofal ac addyssg blynyddoedd cynnar.**

**<u>Telerau:</u>**

**Swyddi gwirfoddol yw'r rhain. Ni ddylai Cyfarwyddwyr wynebu costau wrth ymgymryd yn eu dyletswyddau ar ran Mudiad Meithrin. Telir costau teithio ar raddfa 45c y filltir hyd at uchafswm o 4,000 milltir y flwyddyn, ac yna 25c am weddill y milltiroedd hyd at 10,000 milltir y flwyddyn. Mae modd talu costau gofal dibynyddion hefyd i hwyluso cyfranogiad.**



# Mudiad Meithrin: amdanom ni

## Pwy ydym ni?




**Ry'n ni'n angerddol am roi'r cyfle i bob plentyn chwarae, dysgu a thyfu drwy'r Gymraeg, a'n nod yw gweld siaradwyr Cymraeg newydd yn ffynnu. Gwnawn hyn trwy ymgyrchu dros ofal ac addysg Gymraeg, cefnogi ein haelodau a chynllunio'n strategol i greu darpariaethau (Cylchoedd a Meithrinfeydd) newydd. Mae'n holl Gylchoedd a'n Meithrinfeydd Dydd yn cynnig gweithgareddau llawn hwyl i tua 22,000 o blant ifanc bob wythnos. Ry'n ni hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda rhieni a gofalwyr er mwyn rhoi cefnogaeth a gwybodaeth iddynt ar ddewis addysg Gymraeg, rhoi'r Gymraeg i'w plant a lle i ddechrau dysgu Cymraeg.**

**Mae bron i 300 o staff yn rhan o deulu Mudiad Meithrin gyda 2,000 yn gweithio yn lleol yn y Cylchoedd a'r Meithrinfeydd dydd. Ry'n ni eisiau i'r Mudiad fod yn gyflogwr sy'n denu grŵp amrywiol o unigolion talentog i weithio iddo, gan aros a'n hargymell fel cyflogwr da. Rydym yn rhoi ein ffydd yn ein staff ac yn rhoi'r grym a chefnogaeth iddynt wneud eu gorau er lles ein haelodau, ein pobl a'u hunain. Mae adlewyrchu'r cymunedau ry'n ni'n cefnogi yn bwysig i ni felly rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion o bob cefndir**

## Gwerthoedd Gwaith Mudiad Meithrin

**Dyma'r gwerthoedd sydd yn llywio gwaith a gweithgarwch staff Mudiad Meithrin.**

**Caredig a chyfrifol – dangos parch at ein hunain, at waith ein gilydd, at bob un sydd yn dod i gysylltiad â ni yn ein gwaith ac at ein cynefin a'n byd**

**Tryloyw ac anrhydeddus – trwy dryloywder a gonestrwydd, bod yn atebol am ein penderfyniadau, bod yn barod i gyfaddawdu ac i ddysgu o'n camgymeriadau**

**Proffesiynol ac adeiladol – gwneud ein gorau o hyd gan anelu at greu gwaith o safon uchel, bod yn arloesi a mentro gan roi bri ar ddatblygu'n hunain**

**Cynhwysol a chroesawgar – gweithredu'r egwyddor fod y Gymraeg yn perthyn i bawb, ei fod yn gyfrwng i'n huno a'i bod yn sylfaenol i bob agwedd o'n gwaith**